Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# TALIADAU UNIONGYRCHOL

## Cyflogi Aelodau o'r Teulu

## Canllaw i Gyflogi Cynorthwyydd Personol sy'n aelod o'r teulu

**Mae'n annhebygol y bydd gweithio fel CP yn debyg i unrhyw rôl arall o fewn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gall fod yn gymhleth ac yn ddwys, ond gall hefyd fod yn werth chweil. Gall CP chwarae rhan ymhob agwedd o fywyd unigolyn, ac mae hyn yn golygu y bydd angen i'r ddwy ochr ymddiried y naill yn y llall er mwyn iddo fod yn effeithiol. Mae'n fater o gydweithio a phartneriaeth ond mae cyfrifoldeb gan bob parti o ran cyfraith cyflogaeth sylfaenol.**

Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr â Chanllawiau *Cyflwyniad i Daliadau Uniongyrchol* a *Cyflogi Cynorthwyydd Personol*.

**A allaf ddefnyddio fy Nhaliad Uniongyrchol i gyflogi aelod o'r teulu?**

Nid yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atal aelodau o'r teulu rhag cael eu cyflogi gan unigolyn sy'n Derbyn Taliadau Uniongyrchol (DTU), os yw'r aelod o'r teulu yn byw y tu allan i gartref yr un sy'n Derbyn Taliad Uniongyrchol. Ond, os gwneir cais ar gyfer aelod o'r teulu sy'n byw yn yr un cartref, rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon mai cyflogi aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr un cartref yw'r ateb mwyaf priodol.

Rhai enghreifftiau'n dangos pryd y gall defnyddio aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr un cartref, fod o fudd.

- Resymau crefyddol neu ethnigrwydd.
- Lle mae'n debygol na fydd modd recriwtio gofalwr priodol yn lleol.
- Lle byddai trydydd parti sy'n darparu gofal personol yn achosi gwir drallod.
- Lle mae anghenion gofal yn ysbeidiol ac yn anrhagweladwy.
- Lle mai dyma'r unig ffordd ymarferol o ddiwallu anghenion gofal pan fydd trefniadau gwasanaeth eraill yn methu dros dro.

UDylid nodi eich bod yn defnyddio aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr un cartref yn glir ar eich cynllun gofal a chymorth a'r rheswm dros ddewis yr opsiwn hwn.

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r effaith y gallai cyflogi aelod o'r teulu sy'n byw yn yr un cartref ei chael arnoch chi a/neu aelod o'ch teulu. Efallai ei fod yn ymddangos fel syniad da ond gall bod gyda rhywun 24/7 a pheidio â chael seibiannau rhesymol oddi wrth eich gilydd effeithio ar y berthynas.



**Pethau i'w hystyried**

Gall cyflogi teulu weithio i lawer o bobl a gall fod yn gadarnhaol iawn, ond mae rhai pethau y bydd angen i chi feddwl amdanynt. Fel cyflogwr, rydych yn cytuno i ymgymryd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol o gyflogi staff. Rydych yn ymrwymo i 'gontract cyflogaeth' ffurfiol fel cyflogwr a gweithiwr, er y gallant fod yn aelod o'r teulu.

Ystyriwch y materion isod:

**Cyflogaeth:** mae'n amodol ar dderbyn cyllid gan yr awdurdod lleol a bydd yn seiliedig ar eich asesiad ochr yn ochr â'ch cynllun gofal a chymorth. Meddyliwch am yr hyn a allai ddigwydd os byddwch yn lleihau neu'n cynyddu oriau eich gweithwyr, angen rhoi cerydd iddynt, angen eu diswyddo neu beth os bydd newid sylweddol bydd eich Taliad Uniongyrchol yn dod i ben.

**Perthynas:** fel cyflogwr, mae gennych chi ddisgwyliadau o'ch gweithiwr a safonau penodol. Beth fyddai'n digwydd pe baech yn cwympo mas ond byddech dal i ddibynnu arnynt i'ch helpu gyda gofal personol.

**Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr:** os bydd eich aelod o'ch teulu yn rhoi cymorth anffurfiol di-dâl i chi yn ogystal â chael ei gyflogi, dim ond yn ystod yr oriau y maent yn cael eu cyflogi a'u talu i gyflawni'r tasgau y bydd yr yswiriant yn cael ei dalu.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn sicr y bydd gennych chi a'ch gweithiwr berthynas waith 'ddiogel' a bod gennych gynllun da wrth gefn, rhag ofn y bydd argyfwng.

Rhaid ystyried y gorgyffwrdd rhwng rôl waith 'ffurfiol' a rôl 'anffurfiol' aelodau'r teulu. Rhaid i'r ddau barti fod yn gyfforddus â rhoi a derbyn gofal a chymorth o fewn y berthynas ffurfiol fel cyflogwr/gweithiwr. Mae hyn yn bwysig oherwydd efallai na fu rhai tasgau erioed yn rhan o'ch perthynas anffurfiol, fel tasgau gofal personol.

Os ydych chi'n treulio llawer o amser gyda'ch gilydd mae'n hawdd i ffiniau ddod yn aneglur, ac fel cyflogwr, chi fydd yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau bod eich gweithiwr yn cael digon o seibiannau ac yn defnyddio'u hawl i gael gwyliau. Mae angen i chi sicrhau bod eich gweithiwr yn gweithio'n ddiogel a bod unrhyw risgiau'n cael eu rheoli. Gallai hyn olygu bod angen hyfforddiant ar eich gweithiwr i ddefnyddio offer symud a chodi er ei fod yn berthynas agos.

Dylech bob amser sicrhau bod gennych gyfnod prawf. Bydd hyn yn ei wneud yn weddol hawdd i derfynu'r cyflogaeth os nad yw pethau'n gweithio ar naill ochr y cytundeb.

**Beth os bydd y trefniant yn mynd o'i le?:** os na ellir datrys y materion a bod angen i chi roi rhybudd i'ch gweithiwr yn y camau cynnar, gallwch gael cyngor gan yr yswirwyr atebolrwydd a ddewisoch. Fodd bynnag, bydd angen i chi wneud trefniadau eraill i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnoch. Yn ddelfrydol, dylai fod gennych gynllun cadarn wrth gefn, fel nad ydych yn cael eich gadael heb gymorth.

## Cysylltiadau Defnyddiol

Bydd gan bob Awdurdod Lleol dimau Taliadau Uniongyrchol profiadol sydd yno i'ch cefnogi os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen gwybodaeth arnoch. Byddant yn ymdrechu i roi cymaint o help a sicrwydd ag sydd ei angen arnoch, hyd nes y byddwch yn teimlo'n hyderus i reoli'r trefniadau eich hun. Ond cofiwch, os oes angen cymorth neu gyngor arnoch bob hyn a hyn, mae'r tîm bob amser o fewn cyrraedd ar y ffôn neu drwy e-bost.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i chi am Ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i Gyflogi Aelodau o'r Teulu. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol lleol.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayments@blaenau-gwent.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayadvisors@caerphilly.gov.uk **f.** 01495 235522

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy**
**Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** mccdirectpaymentteam@monmouthshire.gov.uk

**Cyngor Dinas Casnewydd**
**Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol**
**e.** direct.payments@newport.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Tîm Byw'n Annibynnol (Taliadau Uniongyrchol)**
**e.** independentlivingteam@torfaen.gov.uk

Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd — Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council — monmouthshire sir fynwy — Torfaen County Borough / Bwrdeistref Sirol Torfaen — Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili